PWYLLGOR RHANBARTH Y CANOLBARTH

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

Cyflwyniad

1. Un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad yw Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth. Mae Rheol Sefydlog 10 yn nodi ardaloedd daearyddol y pwyllgorau a hefyd yn dweud beth yw eu cylch gorchwyl.

2. Bu Delyth Evans yn cadeirio'r Pwyllgor yn ystod y sesiwn a ddechreuodd yn Nhachwedd 2001, gan gymryd lle Elin Jones. Etholir Cadeirydd newydd ym Mai 2002. Yr aelodau eraill oedd Mick Bates, Nicholas Bourne, Cynog Dafis, Glyn Davies, Elin Jones a Kirsty Williams. Mae'r Llywydd, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas,wedi dewis peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor. O fis Tachwedd 2001 i fis Mai 2002, cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod.

Cylch Gorchwyl a Dull o Weithio

3. Cylch gorchwyl y pwyllgorau yw cynghori'r Cynulliad ar faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, ar yr effaith a gaiff bolisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny a gwaith y cyrff cyhoeddus yno.

4. Mae'r Pwyllgor wedi datblygu ffordd agored o weithio sy'n ennyn cyfranogiad a chynhelir ei holl gyfarfodydd yn gyhoeddus. Ceir crynodeb o'r eitemau y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried isod. Mae wedi gwahodd nifer o gyrff allanol i gyfrannu at ei drafodaethau, er enghraifft, ELWa y Canolbarth, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

5. Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys sesiwn "meicroffon agored" ym mhob cyfarfod er mwyn i aelodau'r cyhoedd a chyrff cyhoeddus allu tynnu sylw'r Aelodau yn fyr at faterion sy'n destun pryder i bobl yn lleol.

Blaenoriaethau

6. Mae agendâu y Pwyllgor yn adlewyrchu ei amcan o gadw cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau a amlinellwyd yn www.gwellcymru.com ac ymateb i faterion sydd o bwys i'r cymunedau y mae'r Aelodau yn eu cynrychioli - felly bu'r eitemau a ystyriwyd yn gymysgedd o faterion strategol ac eitemau sy'n rhoi sylw i faterion lleol.

Materion a Ystyriwyd (o Orffennaf 2001 - Mai 2002)

Dyddiad	**Lleoliad**	**Pwnc**
2 Tachwedd	Aberporth	Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ymgynghori ar Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Cafwyd cyflwyniadau

		gan gynrychiolwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, Ymddiriedolaeth GIG y Canolbarth a Phensiynwr Cymru. Anfonwyd copïau o bapurau a chofnodion y cyfarfod hwn at y Gweinidog Iechyd a chawsant eu bwydo i'r broses ymgynghori. Yn ogystal, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn bywiog i drafod y seilwaith dŵr yn Ne Ceredigion a chafwyd cyflwyniad gan dîm o gynrychiolwyr Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Qinetiq. Bu'r Pwyllgor hefyd yn gwrando ar sylwadau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn gwrthwynebu'r gwaith o ddatblygu llain awyr Aberporth. Cytunodd yr Aelodau bod angen dybryd i Ddŵr Cymru sicrhau bod buddsoddi yn yr ardal yn cael ei reoleiddio; ysgrifennodd y Pwyllgor at OFWAT ac at Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ynghylch y mater hwn.
7 Rhagfyr	Aberhonddu	Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adolygiad o'r Iaith Gymraeg a gynhelir gan y Pwyllgor Diwylliant. Bu trigolion a phlant lleol, cynrychiolwyr o Gyngor Sir Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhoi tystiolaeth. Cafodd y dystiolaeth ei bwydo i adolygiad y Pwyllgor Diwylliant. Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod y tâl a godir i barcio ceir mewn trefi gwledig.
1 Chwefror	Machynlleth	Bu'r Pwyllgor yn trafod y diwydiant twristiaeth yn y Canolbarth gyda chynrychiolwyr o Dwristiaeth y Canolbarth, Awdurdod Datblygu Cymru, Partneriaeth y Canolbarth a Celtica. Ar ôl y cyfarfod, bu'r Pwyllgor yn trafod ei bryderon ynghylch dyfodol Twristiaeth y Canolbarth gyda Bwrdd Croeso Cymru. Cafwyd trafodaeth fer hefyd ar weithgareddau celfyddydol yn y Canolbarth gyda chynrychiolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru a churadon Amgueddfa Celf Fodern Cymru.
8 Mawrth	Trefyclo	Bu'r Pwyllgor yn clywed tystiolaeth ar ddogfen gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef “Cyflawni dros Gymru” gan gynrychiolwyr o Gyngor Sir Ceredigion ac Ymgyrch Diogelu

		Cymru Wledig. Anfonwyd y dystiolaeth ymlaen at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'i chynnwys yn y broses ymgynghori. Bu hefyd yn cynnal trafodaeth ar gyfleusterau chwaraeon yn y Canolbarth gyda chynrychiolwyr o Gyngor Sir Powys, Fforwm Ieuenctid Powys a Chyngor Chwaraeon Cymru.
17 Mai	Tywyn	Bu cynrychiolwyr o ELWa y Canolbarth, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a Choleg Harlech yn rhoi cyflwyniadau ar Addysg Bellach, Dysgu Gydol Oes a Hyfforddiant yn y Canolbarth. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth ar y problemau'n ymwneud ag erydiad yr arfordir yn Nhywyn.

Blaen-raglen waith

1. Bydd y Cadeirydd newydd, gan ymgynghori â'r Aelodau eraill, yn datblygu'r rhaglen waith i sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn gyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chymunedau lleol yn y rhanbarth. Yn sgîl argymhellion Pwyllgor Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad, cytunodd y Pwyllgor i gwtogi ar nifer y cyfarfodydd y bydd yn eu cynnal yn ystod 2002-03 o chwech i dri.

I gloi

2. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth bontio rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r bobl y mae'n ei gynrychioli yn eu cymunedau. Mae dull y Pwyllgor o weithio wedi datblygu drwy gydol y flwyddyn, ac yn hytrach na bod yn bwyllgor craffu yn unig, mae bellach yn cyfrannu at y broses o ddatblygu polisïau'r Cynulliad ac yn canolbwyntio ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. I bob golwg, cafodd y newid pwyslais hwn groeso gan yr Aelodau a'r cyhoedd fel ei gilydd. O ganlyniad, bu llawer mwy o bobl yn dod i'r cyfarfodydd a chafwyd cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau. Y gobaith yw y bydd y dull hwn o weithio yn parhau i'r tymor newydd.

Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth
Mai 2002